**Cyflwyniad**

Mae yna lawer o wahanol math o anhawsterau clyw a lleferydd, ond maent i gyd yn effeithio ar gyfathrebu.

Gallai Disgyblion gael anhawster gyda iaith atsyniadol (prosesu yr iaith a glywant) a /neu iaith fynegiannol (geirio eu teimladau/meddyliau).

Bydd plentyn gyda oediad iaith yn mynd trwy yr un camau datblygiad ond ar raddfa arafach, tra bod plentyn gyda anhwylder iaith yn gwyro oddi ar y llwybr datblygiad arferol.

Bydd trafferthion Ffonolegol yn amlwg yn y modd y mae plentyn yn creu synau,sillafiadau a geiriau.

Bydd anhawsterau gramadeg neu gystrawen yn ymddangos yn strwythur gair, ymadross neu frawddeg.

**Adnabyddiaeth**

Tra bydd problemau ynganu yn hawdd eu hadnabod, bydd eraill yn anos eu darganfod. Mae'n bwysig sylwi sut mae plentyn yn ymateb i iaith a sut maent yn defnyddio iaith.

- Methu deall pan yn ymateb yn unigol, fel rhan o grŵp neu ddosbarth cyfan.I
- Methu dilyn mwy na un,dau neu dri cyfarwyddyd, yn ddibynnol ar oedran.
- Yn dueddol o ateb gyda un gair.
- Methu cynnal sgwrs gyda plant eraill neu oedolion.
- Ail-adrodd yr un ymadrodd dro ar ôl tro.
- Geirfa gyfyngedig.
- Amharodrwydd i ymuno mewn trafodaeth grŵp a chyfrannu i waith llafar.
- Trafferth cofio pethau a ddysgwyd fel pader (yr wyddor, tablau, rhigymau ayyb).
- Trafferth cofio gwybodaeth a gafwyd ar lafar.
- Y plentyn sy'n ymateb yn amhriodol yn ystod amser trafod neu ateb cwestiynau.
- Y plentyn sydd ond yn deall ymadroddion llythrennol.
- Y plentyn sydd ddim yn cael y jôc.
- Y plentyn sy'n gwylio eraill er mwyn gwybod sut i ymateb, e.e. ddim yn mynd i'r llinell nes mae'n gweld eraill yn gwneud.
- Y plentyn sydd wastad angen clywed y cyfarwyddiadau eilwaith.

**Strategaethau ar gyfer y dosbarth**

Mae cymaint y gellir ei wneud yn y dosbarth er mwyn helpu plant sydd ag anhawsterau datblygiad iaith a helpu y dosbarth yn gyffredinol.

- Cadwch y wybodaeth yn fyr a hawdd ei ddeall.
- Siaradwch yn glir a phwyllog.
- Byddwch yn fodel rôl i'r disgybl.
- Danfonwch y plentyn ar neges, hyd yn oed nodyn ar bapur i ddechrau.
- Gofynwch gwestiwn sydd angen ateb o fwy nag un gair.
- Sicrhewch bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu i waith grŵp.
- Peidiwch siarad dros y plant, nhw sydd angen ymarfer.
- Gwnewch siarad a chyfraniadau llafar/siarad yn rhan werthfawr o waith y dosbarth.
- Annogwch y siaradwr anfoddog -ef/hi sydd angen yr ymarfer fwyaf.
- Annogwch y disgyblion i wrando a gwerthfawrogi safbwyntiau.
- Darllenwch yn uchel, beth bynnag yw oed y plentyn-bydd yn gwella sgiliau gwrando a chyfoethogi iaith.
- Ehangwch ar eirfa heb ymddangos i gywiro e.e. “Ble chi mynd?” “Ble ydych chi'n mynd?” “Dwi'n mynd i'r ystafell staff.”

- Gwnewch yr un peth gyda synau coll gan osgoi gor gywiro gan y gall wneud y plentyn yn hunanymwybodol e.e.
  'Bicsen pis'
  'Wyt ti eisiau bricsen?'
  'Bicsen'
  'Dyma fricsen. Ga fi un plis.?

- Chwaraewch gemau côf.

- Dyfnyddiwch gyfnodau byrfyfyr,drama,pypedau,caneuon ailadroddus a straeon.

- Defnyddiwch rhythm e.e. clapio enawau,ymadroddion, cwestiwn ac ateb.

- Cynnhwyswch y plentyn mewn gweithgareddau grŵp mor aml a phosib.

- Darparwch ardal dawel ar gyfer gwrando a siarad yn y dosbarth.

- Mireiniwch eich iaith gyfarwyddyd nes bod tystiolaeth bod y plentyn wedi eich deall.

- Chwiliwch am ddulliau i gael y plentyn i siarad mwy e.e. defnyddio ffôn go iawn

neu fel erfyn).

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

**MERTHYR TYDFIL COUNTY BOROUGH COUNCIL**

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

# ANHAWSTERAU IAITH A LLEFERYDD

## ADRAN DYSGU

**Rhif cyswllt**

Gwasanaethau Cymunedol
Ty Keir Hardie
Riverside Court
Avenue De Clichy
Merthyr Tudful
CF47 8XD
Tel: - 01685 724600
Fax: - 01685 721965

**Gwefanau Defnyddiol**

www.afasic.org.uk
www.ican.org.uk
www.speech-lang.org.uk
www.elklan.co.uk

**Cyhoeddiadau Defnyddiol**

How to identify and support children with Speech and Language Difficulties (LDA)
AFASIC Glossary
At a Glance (Questions Publications)
Spotlight on Speech & Language Difficulties (NASEN)